

Newyddlen demograffeg Llywodraeth Cymru, Rhagfyr 2019

Amcanestyniadau is-genedlaethol o boblogaeth Cymru

Mae'r amcanestyniadau is-genedlaethol o'r boblogaeth sy'n seiliedig ar 2017, a oedd i fod i gael eu cyhoeddi ym mis Hydref 2019, wedi cael eu gohirio. Ar 31 Hydref, cyhoeddwyd yr erthygl ystadegol, [Amcanestyniadau is-genedlaethol o boblogaeth Cymru, ar sail 2017: diweddariad](#).

Mae'r erthygl yn nodi dau fater a gododd wrth lunio amcanestyniadau is-genedlaethol o'r boblogaeth yn seiliedig ar 2017. Roedd y rhain yn golygu ein bod ni wedi penderfynu gohirio'r amcanestyniadau sy'n seiliedig ar 2017, a chyhoeddi amcanestyniadau is-genedlaethol o'r boblogaeth sy'n seiliedig ar 2018 yn lle hynny. Mae'r erthygl yn dilyn [blog](#) gan y Prif Ystadegydd.

Amcanestyniadau poblogaeth cenedlaethol y DU ar sail 2018

Cyhoeddwyd [Amcanestyniadau poblogaeth cenedlaethol: ar sail 2018](#) gan y Swyddfa Ystadegau Gwladol ar 21 Hydref 2019. Maent yn rhoi data ar faint posibl y DU a'i gwledydd cyfansoddol (Cymru, Lloegr, yr Alban, a Gogledd Iwerddon) yn y dyfodol.

Rhagwelir y bydd poblogaeth Cymru yn cynyddu o 0.6% i 3.16 miliwn erbyn 2028, ond yn gostwng o 0.9% i 3.11 miliwn erbyn 2043. Dyma'r tro cyntaf i ostyngiad hirdymor yn y boblogaeth gael ei ragweld ar gyfer Cymru yn ddiweddar.

Amcanestyniadau is-genedlaethol o aelwydydd Cymru

Mae'r amcanestyniadau is-genedlaethol o aelwydydd sy'n seiliedig ar 2017, a oedd i fod i gael eu cyhoeddi ym mis Hydref 2019, hefyd wedi cael eu gohirio. Bydd yr amcanestyniadau is-genedlaethol o aelwydydd hefyd yn seiliedig ar 2018 er mwyn adlewyrchu'r newidiadau i'r amcanestyniadau is-genedlaethol o'r boblogaeth.

Amcangyfrifon aelwydydd: Canol 2018

Bydd yr amcangyfrifon o aelwydydd canol 2018 a oedd i fod i gael eu cyhoeddi ym mis Hydref, yn cael eu cyhoeddi ar 17 Rhagfyr 2019.

Mudo rhyngwladol hirdymor

Ar 28 Tachwedd, cyhoeddodd y Swyddfa Ystadegau Gwladol ei [Hadroddiad Chwarterol diweddaraf o'r Ystadegau Mudo](#), ar gyfer y flwyddyn a ddaeth i ben ym mis Mehefin 2019.

Mae'n dwyn ynghyd yr ystadegau ar fudo a gyhoeddir gan Swyddfa Gartref y DU, Adran Gwaith a Phensiynau y DU, a'r Swyddfa Ystadegau Gwladol.

Y Gymraeg

Ar 5 Rhagfyr, cyhoeddwyd bwletin yn cyflwyno canlyniadau Arolwg Cenedlaethol Cymru 2018-19 ar [y Gymraeg yn y gweithle](#). Gofynnwyd i siaradwyr Cymraeg cyflogedig am eu defnydd o'r iaith â chyd-weithwyr a phobl o'r tu allan i'w sefydliad fel rhan o'u rôl. Roedd yr arolwg hefyd yn gofyn a oedd eu cyflogwr yn cynnig cyfleoedd i'r staff ddysgu Cymraeg.

Cysylltu

Ffôn: 0300 025 0373

E-bost: ystadegau.poblogaeth@llyw.cymru